

Crynodeb Gwirio Ansawdd  
Practis Deintyddol Dant y Coed  
Dyddiad y gweithgarwch: 10 Mehefin  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 15 Gorffennaf 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Dant y Cod (y practis) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn rhedeg saith deintyddfa o ddydd i ddydd sy'n darparu triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol a rheolwr y practis ar 10 Mehefin 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19?

---

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol diweddaraf
- Y polisi amgylcheddol.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd cynrychiolwyr y gwasanaeth nifer o newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn sicrhau y gallai'r practis gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol. Yn eu plith roedd cael gwared ar yr holl gadeiriau, eitemau eraill o ddodrefn a phapurau o'r ystafelloedd aros. Aethpwyd ati i glirio'r ardal chwarae i blant hefyd ac fe'i defnyddiwyd fel gorsaf gwisgo a diosg<sup>1</sup> cyfarpar diogelu personol i'r staff. Cyflwynwyd system unffordd i reoli symudiadau'r cleifion drwy'r practis. Defnyddiodd y staff *walkie-talkies* i gysylltu â'i gilydd hefyd er mwyn sicrhau nad oedd y cleifion yn dod i gysylltiad â'i gilydd wrth wneud eu ffordd i'r ystafelloedd triniaeth neu oddi yno. Roedd arwyddion yn ymwneud â mesurau diogelwch COVID-19 y tu mewn a'r tu allan i'r practis, gan gynnwys sticeri ar y llawr i ddynodi cadw pellter o ddau fetr.

Cawsom wybod hefyd fod y practis yn defnyddio system ffôn ddigidol newydd, fel bod modd derbyn mwy o alwadau ar yr un pryd. Yn ogystal, roedd y practis yn defnyddio dolen drwy ei feddalwedd rheoli practis deintyddol i alluogi'r cleifion i gwblhau ffurflenni cyn apwyntiad, gan gynnwys hanes meddygol. Cafodd y ddolen hon ei defnyddio hefyd i frysbennu'r cleifion cyn eu hapwyntiad er mwyn sicrhau nad oedd ganddynt unrhyw symptomau COVID-19 cyn iddynt gyrraedd. Nod hyn oedd cyfyngu ar yr amser yr oedd y cleifion yn ei dreulio yn y practis a'u cadw'n ddiogel.

Nododd aelodau'r tîm rheoli y gwnaethom gyfweld â nhw fod y newidiadau a wnaethpwyd wedi cael effaith sylweddol ar allu'r practis i ddarparu triniaeth ddeintyddol ar y lefelau a welwyd cyn y pandemig. Gwnaethant ganmol tîm ehangach y practis hefyd a oedd wedi bod yn gweithio 12 awr y dydd er mwyn gallu gweld yr un faint o gleifion a chaniatáu ar gyfer gweithgarwch glanhau a chyfnodau segur<sup>2</sup>. Roedd y practis nawr yn gweithredu mewn saith

---

<sup>1</sup> Gwisgo - rhoi cyfarpar diogelu personol (PPE) ymlaen; Diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ffwrdd

<sup>2</sup> Cyfnod segur yw'r amser tawel yn y ddeintyddfa ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.

---

deintyddfa bob dydd unwaith eto, ar oriau arferol, ac roeddent hefyd wedi llwyddo i leihau'r ôl-groniad. Nodwyd eu bod wedi prynu cyfarpar diogelu personol cyn gynted ag y dechreuodd y pandemig a bod system awyru wedi'i gosod a oedd yn rhan annatod o'r adeilad. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael prawf ffitio hefyd ar gyfer masgiau FFP3<sup>3</sup>.

Yn ogystal â'r system awyru a nodir uchod, cawsom wybod am yr addasiadau a wnaed i'r ystafelloedd triniaeth lle roedd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol<sup>4</sup> yn mynd rhagddynt. Yn eu plith roedd cael gwared ar yr holl eitemau ategol o bob deintyddfa, gan gynnwys gwagio'r droriau, atal mynediad yn ystod triniaeth a sicrhau bod y pecyn deintyddol yn cael ei baratoi ymlaen llaw. Roedd rhedwr (negesydd) ar gael gyda *walkie-talkie*, pe bai angen cyfarpar ychwanegol. Yna, roedd y ddeintyddfa yn cael ei glanhau'n drylwyr ar ôl y driniaeth ac yn cael ei chadw'n segur am gyfnod. Roedd arwydd ar y drws a oedd yn dangos pryd y gallai'r driniaeth nesaf fynd rhagddi yn y ddeintyddfa honno.

Cawsom dystiolaeth o'r asesiad risg amgylcheddol (gan gynnwys unrhyw asesiad penodol yn ymwneud â COVID-19) ar gyfer y practis a adolygwyd yn ddiweddar. Roedd yr asesiad hwn yn rhestru'r risgiau, y mesurau rheoli a'r mesurau rhagofalus gwahanol a oedd ar waith i leihau'r risg. Gwelsom hefyd dystiolaeth o weithdrefn gweithredu safonol y practis ar gyfer rheoli gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol a gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol. Dywedwyd wrthym fod capasiti clinigol wedi lleihau tua 40 y cant (%) o ganlyniad i hyn.

Roedd y practis yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf yn y canllawiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol yng Nghymru a gweithdrefnau gweithredu safonol diweddaraf Cymru Gyfan. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant staff yn cael ei ddarparu mewn perthynas â'r wybodaeth ddiweddaraf lle y bo angen. Roedd pob diweddariad a newid yn y canllawiau yn cael ei rannu â'r staff drwy system negeseua ddiogel ar-lein, cyfarfodydd staff ac arwyddion wedi'u lamineiddio yn y practis. Roedd cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal ar-lein fel arfer.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella:**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

---

<sup>3</sup> Caiff yr angen i wisgo masg FFP3 (masg untro ar gyfer y trwyn a'r geg er mwyn anadlu'n ddiogel) ei nodi drwy asesiad risg clinigol. Defnyddir y masg i ddiogelu rhag pathogenau a ledaenir drwy anadlu. I ddefnyddio'r masgiau hyn, rhaid i'r aelodau perthnasol o staff gael prawf ffitio wyneb er mwyn sicrhau y gall y masg ffitio'r wyneb yn iawn a'i fod yn gweithio mor effeithiol ag sy'n ofynnol.

<sup>4</sup> Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

---

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi diweddaraf WHTM01-05 a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf
- Polisiâu Glanhau a Chadw Tŷ Cyffredinol
- Amserlenni glanhau gan gynnwys archwilio'r awtoclafau a'r cyfarpar uwchsain.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiwyd y prosesau a oedd ar waith i leihau risgiau heintio i'r staff a'r cleifion wrth gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol. Yn eu plith roedd newid y dull glanhau yn y practis a darparu hyfforddiant COVID-19 ychwanegol i'r staff. Ar hyn o bryd, mae'r staff yn cael profion llif unffordd cyflym ddwywaith yr wythnos. Roedd gwiriadau'n cael eu cynnal i sicrhau nad oedd gan y cleifion symptomau ac roeddent yn cael eu hebrwng drwy'r practis er mwyn sicrhau eu bod yn dod i gysylltiad â chynifer o bethau â phosibl. Roedd y staff yn gwisgo gynau diddos, gorchuddion wyneb a masgiau FFP3 yn ystod unrhyw driniaeth.

I ddechrau, yn ystod y pandemig, cawsom wybod bod ystafell benodol yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol. Fodd bynnag, erbyn hyn caiff pob deintyddfa ei defnyddio ar gyfer pob un o'r gweithdrefnau gyda'r gweithgarwch glanhau a'r cyfnod segur a ddisgrifir uchod, yn adran yr amgylchedd. Hefyd, roedd gan bob deintyddfa ffenestri a oedd yn cael eu hagor yn ystod y dydd er mwyn cynyddu'r llif aer a lleihau'r risg o ddal y feirws.

Cawsom wybod bod un nyrs ddeintyddol wedi cael y cyfrifoldeb o sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant perthnasol un i un ar lanhau, cadw cofnodion a chynnal a chadw masgiau. Roedd nyrs arall yn gyfrifol am archebu cyfarpar diogelu personol ac roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am y profion llif unffordd cyflym.

Gwelsom dystiolaeth o'r adnodd asesu risg a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gweithle a cawsom wybod bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r asesiad a bod pob un ohonynt yn risg isel.

Cafodd mesurau eu rhoi ar waith i sicrhau bod y staff yn teimlo'n hyderus yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn hyderus a'u bod yn gallu gwneud hynny. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cynnwys dilyn arwyddion yn yr ardal gwisgo a diosg. Canllaw cam wrth gam oedd hwn y gallai'r staff ei ddilyn wrth symud drwy'r ystafell, o beidio â gwisgo unrhyw gyfarpar diogelu personol i wisgo cyfarpar diogelu personol llawn. Roedd proses debyg ar waith hefyd ar gyfer diosg cyfarpar diogelu personol.

Darparwyd amserlenni glanhau gwahanol y practis, y broses glinigol o lanhau'r deintyddfeydd a pholisiâu glanhau gyda'r dystiolaeth ar gyfer y gwiriad ansawdd hwn. Roedd y rhain yn

---

---

dangos bod y practis yn cael ei lanhau'n rheolaidd yn unol â'r polisi a bod yr amserlenni yn cael eu cymeradwyo gan reolwr y practis.

Darparwyd tystiolaeth o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05<sup>5</sup> a'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella. Darparwyd copïau o'r cofnodion gwirio dyddiol ar gyfer pob awtoclaf a chofnodion o'r gwiriadau dyddiol o'r awtoclafau a'r cyfarpar uwchsain, ac roeddent wedi'u cwblhau fel sy'n ofynnol. Roedd hyn yn dangos bod cyfarpar deintyddol y gellir ei ddefnyddio fwy nag unwaith yn cael ei ddihalogi'n effeithiol.

Cawsom wybod bod cyfleusterau hylendid dwylo yn cael eu darparu i'r staff a'r cleifion, gyda phwyntiau diheintio dwylo wrth fynedfa ac allanfa'r practis. Roedd sincipiau ar gael i'r staff olchi eu dwylo ym mhob deintyddfa hefyd ac roedd digon o hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r practis.

Trafodwyd y broses a oedd ar waith yn y practis i sicrhau bod y cleifion yn cael eu sgrinio ar gyfer symptomau cyn diwrnod eu hapwyntiad ac ar y diwrnod hwnnw. I ddechrau, roedd staff y dderbynfa yn mynd drwy restr brysbennu symptomau COVID-19 gyda'r cleifion pan roeddent yn trefnu eu hapwyntiad dros y ffôn. Pan roedd y claf yn cael neges destun yn ei atgoffa am ei apwyntiad, roedd gofyn iddo glicio ar y ddolen a chwblhau'r rhestr brysbennu COVID-19. Yna, roedd staff y dderbynfa yn mynd ati i gadarnhau ymatebion y claf y diwrnod cyn ei apwyntiad. Cysylltwyd â'r rhai nad oeddent wedi cwblhau'r rhestr er mwyn mynd drwy'r manylion dros y ffôn. Ar ddiwrnod yr apwyntiad, pan ganiatawyd i'r cleifion fynd i mewn i'r adeilad, roeddent yn cael eu sgrinio eto. Gwnaethpwyd hyn hefyd er mwyn sicrhau nad oedd gan y cleifion unrhyw symptomau COVID-19 ac i leihau'r risg i'r staff a'r cleifion.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf a baratowyd o dan Reoliad 16(3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 <sup>6</sup>

---

<sup>5</sup> Nod cwmpas, statws a strwythur Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05 yw gwella ansawdd gwaith dihalogi'n raddol mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol drwy gwmpasu'r broses o ddihalogi offerynnau y gellir eu defnyddio fwy nag unwaith o fewn cyfleusterau deintyddol.

<sup>6</sup>

<https://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/regulation/16/made/welsh>

- 
- Polisiau / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
  - Polisiau/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
  - Cynlluniau parhad busnes
  - Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
  - Y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
  - Aseidiadau risg a wnaed mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch y staff
  - Archwiliad cardiau cofnodion
  - Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
  - Copi o'r datganiad diweddaraf o ddiben<sup>7</sup>
  - Copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion<sup>8</sup>.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod y practis wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig, gan gefnogi cleifion a rheoli'r risg i ofal cleifion i ddechrau drwy gymryd galwadau ffôn ar gyfer gwasanaeth brysbennu o bell<sup>9</sup>, drwy gydol y dydd a gyda'r nos. Sicrhodd hyn bod modd darparu gofal cleifion yn unol â'u hanghenion. Cawsom wybod hefyd fod y practis wedi cysylltu â phob claf i sicrhau nad oedd ganddynt unrhyw broblemau deintyddol a bod gwybodaeth wedi cael ei hanfon at y cleifion ynghylch ymateb y practis i'r pandemig. Cafodd y wybodaeth hon ei phostio ar wefan y practis hefyd. Ni chaniatawyd i gleifion a oedd yn aros am ganlyniad prawf COVID-19 na chleifion a oedd â symptomau COVID-19 fynychu'r practis a gofynnwyd iddynt ynysu. Os oedd gan gleifion symptomau deintyddol difrifol, cawsant eu cyfeirio at leoliad canolog y cyfeiriwyd ato fel "safle coch"<sup>10</sup>. Cawsom wybod bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y wybodaeth a oedd ar gael am COVID-19 drwy ddolenni ar wefan y practis, cyn iddynt fynychu'r practis.

Dywedodd cynrychiolwyr y practis y gwnaethom siarad â nhw fod y staff wedi addasu'n dda iawn yn ystod y pandemig a bod pob aelod o'r staff yn gallu gweithio ar ôl cwblhau Adnodd Asesu Risg COVID Cymru Gyfan<sup>11</sup>. Aethant ymlaen i esbonio'r gweithdrefnau a oedd ar waith

---

<sup>7</sup> Y datganiad o ddiben yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Dylai hefyd restru'r mathau o driniaeth, cyfleusterau a phob gwasanaeth arall a ddarperir yn y practis deintyddol preifat neu at ei ddibenion, gan gynnwys manylion yr ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

<sup>8</sup> Mae'r daflen wybodaeth hon, a ddarperir i'r cleifion, yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ar gyfer ceisio barn y cleifion, mynediad i'r eiddo a chadw apwyntiadau.

<sup>9</sup> Pennu graddau difrifoldeb er mwyn penderfynu ar y drefn o ran darparu triniaeth i nifer o gleifion.

<sup>10</sup> <https://www.dental-referrals.nhs.wales/wp-content/uploads/2020/04/2020-04-03-Red-Alert-Phase-Escalation-PDF.pdf>

<sup>11</sup> Datblygwyd yr Adnodd Asesu Risg er mwyn helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt yn wynebu risg uwch o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19.



---

pe bai gan y staff symptomau COVID-19 neu pe baent yn cael canlyniad prawf COVID-19 positif.

Dywedwyd wrthym fod y nyrs arweiniol yn gwirio'r cyfarpar brys, gan gynnwys y batri, yn rheolaidd, yn weledol bob dydd, gan lunio cofnodion wythnosol. Defnyddiwyd system debyg i wirio'r feddyginiaeth a gadwyd yn y practis, gan gynnwys dyddiadau dod i ben pob eitem.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddull seiliedig ar gydraddoldeb a hawliau, proses recriwtio deg a llawlyfr staff a oedd yn cynnwys gwahanol bolisiau. Roedd yn rhaid i'r staff lofnodi er mwyn dangos eu bod wedi darllen a deall y llawlyfr. Roedd yn rhaid i'r staff hefyd gadw cyfrinachedd y cleifion a'u trin fel y byddent yn disgwyl cael eu trin eu hunain.

O ran y defnydd o'r Gymraeg yn y practis, dywedwyd wrthym fod pob arwydd yn y practis yn ddwyieithog. Roedd dau aelod o staff y practis yn siarad Cymraeg ac yn gwisgo'r emblem gydnabyddedig ar gyfer siaradwr Cymraeg ar eu gwisg. Dywedodd y staff y gwnaethom gyfsweld â nhw eu bod yn ceisio annog pob aelod o'r staff i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml. Roedd y practis yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cleifion a oedd ond yn gallu siarad ieithoedd eraill.

Gwnaethom edrych ar y dogfennau a restrir uchod a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys polisi cydsyniad cleifion y practis ac amrywiaeth o ddogfennau polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth a ddefnyddiwyd yn y practis gan gynnwys ar gyfer triniaeth orthodontig<sup>12</sup> a thawelu mewnwythiennol<sup>13</sup>. Roedd y dogfennau hyn yn rhoi disgrifiad o'r driniaeth, y risgiau a'r manteision fel bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad hyddysg ynghylch eu triniaeth.

Cawsom dystiolaeth bod hanes meddygol y claf yn cael ei gymryd yn ei apwyntiad cyntaf ac ym mhob apwyntiad wedi hynny er mwyn cadarnhau'r manylion a diweddarau'r cofnod gydag unrhyw newidiadau.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi dechrau cynnal rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ddiweddar a'i fod hefyd yn parhau i gynnal hyfforddiant ar-lein a dysgu electronig. Cawsom hefyd dystiolaeth o'r cofnod hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd y cofnod hwn yn dangos bod y mwyafrif o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym meysydd:

- Dadebru Cardio-anadlol<sup>14</sup> (100%)
- Rheoli Heintiau (92%)

---

<sup>12</sup> Mae orthodonteg yn faes deintyddol arbenigol sy'n ymwneud â diagnosis dannedd, genau a phatrymau cnoi sydd wedi'u camleoli, atal achosion o'r fath a'u hunioni.

<sup>13</sup> Mae tawelu mewnwythiennol yn fath o anesthesia (cyffuriau sy'n ymlacio claf ac yn ei atal rhag teimlo poen) a roddir drwy diwb a osodir mewn gwythien.

<sup>14</sup> Mae dadebru cardio-anadlol yn driniaeth frys sy'n cyfuno cywasgu'r frest yn aml ag awyru artiffisial er mwyn ceisio cynnal gweithrediad yr ymennydd yn gyfan â llaw nes i gamau pellach gael eu cymryd i adfer cylchrediad y gwaed ac anadlu digymell mewn unigolyn sydd wedi cael trawiad ar y galon.

- 
- Diogelu Rhag Ymbelydredd (80%)
  - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (72%).

Fodd bynnag, roedd y cofnod hefyd yn dangos mai dim ond 28% o'r staff a oedd wedi cwblhau unrhyw Hyfforddiant Tân ac mai dim ond 40% ohonynt a oedd wedi cwblhau hyfforddiant yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data<sup>15</sup>.

Mae'n ofynnol i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â phob hyfforddiant gorfodol perthnasol a bod unrhyw gydymffurfiaeth o'r fath yn gyffredol.

---

## Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

---

<sup>15</sup> Rheoliad yng nghyfraith yr UE ar breifatrwydd a diogelu data yn yr Undeb Ewropeaidd a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016/679.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Dant y Coed

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	<p>Roedd y dystiolaeth o'r cofnod hyfforddiant gorfodol yn dangos mai dim ond 28 y cant o'r staff a oedd wedi cwblhau unrhyw Hyfforddiant Tân ac mai dim ond 40% ohonynt a oedd wedi cwblhau hyfforddiant yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol a bod unrhyw</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a 17 (3)(a) a 22(4)(c)</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal, Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Byddwn yn sicrhau bod y staff nad ydynt wedi cwblhau eu hyfforddiant Hyfforddiant Tân a GDPR eto yn cael yr hyfforddiant cyfredol cyn gynted â phosibl.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal a'i ddiweddarau, bydd ein cydgysylltydd DPP yn monitro ei thaenlen yn fisol ac yn rhannu â'r staff drwy lwybrau</p>	<p>Michelle Williams (Rheolwr y Practis)</p> <p>Cydgysylltydd DPP</p>	<p>1 mis.</p> <p>Adolygu'r daenlen hyfforddiant gorfodol bob mis.</p>

gydymffurfiaeth o'r fath yn gyfredol bob amser.			
---	--	--	--

		cyfathrebu gwahanol unrhyw feysydd y mae angen i aelodau unigol o'r staff fod yn ymwybodol ohonynt.	
--	--	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Michelle Williams

Dyddiad: 23 Mehefin 2021.